

MORGAN, THOMAS (1543 - c. 1605), Pabydd a chynllwynwr

Enw: Thomas Morgan
Dyddiad geni: 1543
Dyddiad marw: c. 1605
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Pabydd a chynllwynwr
Maes gweithgaredd: Gwrthryfelwyr; Crefydd; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Honnai ei fod yn hanfod o ' right worshipful family of Monmouthshire ' ; tybia awdur yr erthygl arno yn y *D.N.B.* mai teulu **Morgan**, Llantarnam ydoedd hwn, tyb David Mathew (*Celtic Peoples and Renaissance Europe*, 89) ydyw mai perthyn i'r teulu **Morgan**, Machen yr oedd, eithr ni ellir ei gysylltu â'r naill deulu na'r llall fel y rhoddir eu hachau yn **Clark**, *Limbus*, 311-3, 322-3. Ar ôl cael addysg yn Rhydychen - ni wyddys ym mha goleg y bu - a gwasnaethu yng nghartrefi esgob Exeter ac **archesgob Caerefrog** (1561-8), cymeradwywyd ef yn 1569 gan **ieirl Pembroke** a Northumberland i wasnaethu George Talbot, 6ed iarll Shrewsbury, y gwŕ yr oedd Mari frenhines Sgotland yn garcharor yn ei gartref ef, yn Tutbury, ar y pryd. Fe'i cysylltodd Morgan ei hun â'r frenhines, bu'n foddion i gludo llythyrau dirgel iddi, ac, ar ôl iddo gael ei gwestiyno gan y Cyngor (15 Mawrth 1572) fe'i carcharwyd yn Nhŵr Llundain am naw mis fel un a fu â chyfran ganddo yn y ' Ridolfi Plot.' Wedi ei ryddhau aeth i Baris; yno, yn ysgrifennydd i James Beaton, archesgob Glasgow a llys-gennad Mari, parhaodd i ofalu am ohebiaeth Mari hyd y cyhuddwyd ef gan **Dr. William Parry** o gychwyn cynllwyn i ladd Elisabeth - y cynllwyn y torrwyd pen **Parry** o'i blegid yn 1585. Y flwyddyn cynt (1584) ymddangosodd yr athrod dienw ar gynghorwyr Protestannaidd Elisabeth a elwir yn Leycesters' Commonwealth, gwaith yr oedd Walsingham yn gwbl argyhoeddedig mai Morgan ydoedd ei brif awdur; credai Mari mai dyna paham y mynnai Llywodraeth Elisabeth fod i Morgan ran a chyfran yng 'nghynllwyn' **Parry** er mwyn profi bod rhesymau digonol dros ei gael allan o'r wlad. Er na feiddiai Henri II gythruddo Sbaen trwy gydsynio â'r cais, cadwodd ef yn y Bastille (1585-90), gan wrthod dro ar ôl tro wrando ar geisiadau Elisabeth am ei anfon allan o'r wlad a cheisiadau Mari am iddo ei ryddhau; yno parhaodd Morgan i ohebu â Mari (a chafodd Elisabeth wybod am gynnwys yr ohebiaeth) a bu'n helpu i drefnu'r ' Babington Plot ' (1586). Yn y cyfamser yr oedd yn cadw cyswllt â chyfeillion a pherthnasau Pabyddol yn Ne Cymru a cheisiodd eu defnyddio yn ei gynlluniau a'i gynllwynion (*Cal. Scot. Pap.*, v, 87, 142; Hist. MSS. Com., *Cecil*, iv, 1, 6-10). Pan gafodd ei ryddhau yn 1590 yr oedd marwolaeth ei noddwraig wedi peri iddo golli ei ddylanwad a'i bensiwn, a chan ei fod yn elynol i'r Jesiwtiaid ac yn bleidiol i hawliau mab Mari, yr oedd iddo elynion yn ei faes arbennig ei hun. Er mwyn gwrthweithio dylanwad Parsons ac Allen, cefnogai ef ddyrchafu **Owen Lewis**, esgob Cassano - yr oedd barn **Owen** ar agwedd pethau yn Lloegr yn fwy derbyniol ganddo. Pan fwrwyd ef allan o Ffrainc aeth i'r rhan honno o'r Iseldiroedd a oedd o dan lywodraeth Sbaen; yno llwyddodd plaid y Jesiwtiaid i gael ei ddodi yng ngharchar am dair blynedd arall (1590-2). Yn ystod gweddill teyrnasiad Elisabeth bu'n gwibio'n ddi-ddylanwad yma a thraw yn Ewrop. Yn gynnar wedi i lago ddyfod i'r orsedd aeth at **Syr Thomas Parry** (a fu farw 1616), llysgennad Lloegr ym Mharis, gyda chynlluniau i geisio cymodi'r Pabyddion yn Lloegr a gwneuthur niwed i'r Jesiwtiaid. Ym mis Ionawr 1605 cyhuddwyd ef o gynllwynio gyda chariadferch Henri IV (yr oedd ei chwaer hi mewn cyswllt â Phabyddion anffodog yn Lloegr) a chondemniwyd ef i farwolaeth, eithr yn niwedd y flwyddyn yr oedd yn fyw o hyd, ym Mharis, ac yn disgwyl y gymynrodd a addawsid iddo gan Mari frenhines Sgotland. Ar ôl hyn nid oes hanes amdano, er ei bod yn bosibl ei fod yn fyw yn 1611.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Anthony Wood, *Athenae Oxonienses* (1813â€“20), i, 605-8

Reports of the Historical Manuscripts Commission, Cecil, iii, passim; iv, 6-10, 571; xiii, 274, 296; xvii, 53, 493

Calendar of State Papers, Domestic Series, 1580-1610

Calendar of the state papers, relating to Scotland, iii-x

'Public Record Office - State Papers' 78/50

The English historical review, liii. 628, 641

The Listener, 16 Mawrth 1950

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 58954204

Wikidata: Q15485988

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION

